**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Medi 2004 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12:30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl :** | Adroddiad y Gweinidog Dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |

**Golwg Gyffredinol ar yr Economi**

1. Gweler yr Adroddiad Economaidd Chwarterol a'r Adroddiad Ystadegol Chwarterol yn atodiadau A a B.

**Cynorthwyo Busnes**

2. **Uno** – Ar 14 Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai WDA, WTB ac ELWa yn cael eu hymgorffori yn Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 1 Ebrill 2006 fel cam cyntaf tuag at ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd yr uno hwn yn gwella atebolrwydd democrataidd, yn cefnogi ymgyrch y Llywodraeth i gynhyrchu polisïau sy'n benodol i Gymru ac yn symleiddio swyddogaethau'r 'swyddfa gefn' gan ryddhau adnoddau i'w buddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

3. Mae Gweithgor Uno, sy'n cynnwys Prif Weithredwyr y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Penaethiaid Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur wedi'i ffurfio i oruchwylio'r modd y caiff y broses ei rhoi ar waith. Mae'r gwaith technegol manwl wedi'i roi i Brosiect Cwmpasu gyda chymorth naw o grwpiau llif gwaith arbenigol gwahanol. Mae'r prosiect Cwmpasu wedi cael ei sefydlu ar sail 'Tîm Cymru' ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o ELWa, WDA, WTB a'r Undebau Llafur. Mae'n paratoi opsiynau ar gyfer rheoli'r broses integreiddio a'r lefel uchel o weithgareddau busnes. Bydd yn adrodd i Weinidogion ym mis Tachwedd a bydd yn cymryd i ystyriaeth y gwaith sydd ar y gweill ar y Prosiect Adolygu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Strategaeth Adleoli.

4. Nid yw'r datblygiadau hyn yn newid polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economi Cymru fel y nodir yn Cymru'n Ennill. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gwsmeriaid busnes yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt. Rwy'n hyderus y bydd yr uno yn ein galluogi i integreiddio swyddogaethau'r sefydliadau sy'n cael eu hymgorffori fel y gallwn ddarparu gwasanaeth uwch ei safon i fusnesau. Byddwn yn parhau i fod yn ymwybodol o fuddiannau'r byd busnes i sicrhau bod y gwasanaethau wedi'u llunio i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac yn gweithredu er budd economi Cymru.

5. Ar 10 Medi, ym Mharc Busnes Caerffili, lansiais **brosiect cymeradwy rhif 2000 o dan Raglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006.** Yn yr achlysur lansio, cyhoeddais hefyd bod grant o £1 biliwn wedi ei neilltuo ar draws y Rhaglenni, sydd, ar y cyd ag arian cyfatebol o'r sector cyhoeddus a phreifat yn gyfanswm o £2.3 biliwn i'w fuddsoddi mewn prosiectau yng Nghymru.

6. Mae prosiect rhif 2000, **CREDU**, a grewyd drwy bartneriaeth Canllaw Ar-lein a Fujitsu (un o gwmnïau gwasanaethau TG mwyaf y byd), wedi cael grant Amcan 1 o £8.9

miliwn ar sail arian cyfatebol o £8.8 miliwn. Menter genedlaethol yw'r prosiect i greu gwasanaeth gwybodaeth ddigidol, drwy rwydwaith o 82 'Digilab' ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

7. Rwyf wedi cychwyn ar **gyfres o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol**. Cyfarfûm â chynrychiolwyr Cyngor Sir Penfro ar 26 Gorffennaf. Bûm yn trafod nifer o bethau, gan gynnwys adfywio economi'r sir. Ar 13 Medi, cyfarfûm ag Arweinydd newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Rhondda Cynon Taf ar 20 Medi.

8. Mynychais **Farnborough International 2004** fel gwestai y Society of British Aerospace Companies ac ymwelais â nifer o gwmnïau awyrofod o Gymru oedd yn arddangos yn y sioe. Hefyd, cyflwynais brif araith i fforwm y systemau Cerbydau Awyr Di-beilot (UAV), gan amlinellu fy rhesymeg a'm gweledigaeth ar gyfer y sector UAV yng Nghymru a phwysleisio'r cyfle i sefydlu Canolfan Ragoriaeth ym maes UAV ym Mharc Aber-porth a Bae Ceredigion yn dilyn lansio Parc Aber-porth yr wythnos flaenorol.

9. Cyhoeddwyd mai **Thales** oedd enillydd y rhaglen **Watchkeeper Unmanned Aerial Vehicles** sy'n werth miliynau o bunnoedd. Mae Watchkeeper yn cynrychioli'r prif dechnolegau sy'n hanfodol i gynlluniau cyfredol y DU i sicrhau UAV's, a bu Prif Weinidog Cymru a minnau mewn cyfarfod gyda Thales ar 26 Gorffennaf i drafod eu cynlluniau ar gyfer y rhaglen hon ac ar gyfer y diwydiant UAV.

**10.** Yn ogystal â'r ffaith fod Airbus yn ehangu ei waith gweithgynhyrchu ym Mrychdyn ac yn dal i gyflogi prentisiaid gweithgynhyrchu a thechnegwyr ar gyfer mis Medi, mae cwmnïau awyrofod eraill yng Nghymru hefyd yn addo nifer sylweddol o swyddi newydd. Ar y cyfan dylai fod tua mil o swyddi newydd yn y diwydiant awyrofod yng Nghymru erbyn diwedd 2005 wrth i'r diwydiant barhau i adfer ers y dyddiau du a ddilynodd Medi 11.

11. Mynychais **Seremoni Gwobrau e-Fasnach Cymru** ar 13 Medi ac roedd yn bleser medru cyflwyno'r gwobrau i enillwyr y pum categori. Bydd yr enillwyr hyn yn mynd ymlaen i Wobrau e-Fasnach y DU gyda'r cyfle i ennill gwobr o gronfa wobrau sy'n werth £214,000. Llywodraeth Cynulliad Cymru yw noddwr y gwobrau yng Nghymru yn 2004 ac mae Cymru yn cynnal y seremoni wobrau hon am y chweched flwyddyn.

**Pennu Cyfeiriad Newydd**

12. Mae'n bleser gennyf ddweud bod **Nodyn Cyngor Technegol 8** (TAN 8) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2004 i ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch. Mae'r ddogfen yn newid sylweddol yn y cyngor cynllunio a'i bwriad yw rhoi cyfarwyddyd ar y polisi cynllunio cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy i ategu Polisi Cynllunio Cymru, a chyngor technegol ar ystod o dechnolegau adnewyddadwy.

13. Fframwaith strategol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yw'r TAN drafft ac mae'n cael ei anelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol, ond bydd hefyd o ddiddordeb i ddatblygwyr, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau amgylcheddol ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd yn fframwaith cynllunio wedi'i ddatblygu'n wrthrychol i helpu i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy. Bydd yn hwyluso datblygiad y diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac yn ein helpu i gyrraedd ein targed ynni adnewyddadwy o 4TWhr erbyn 2010.

14. Er mai dogfen gynllunio yw hon yn bennaf, hoffwn serch hynny annog unigolion a chyrff i anfon unrhyw ddogfennau at Is-adran Gynllunio Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos.

**Cymru yn y Byd**

**15.** Ymwelais â **Llydaw** rhwng 28 Gorffennaf a 2 Awst.  Gan fwrw ymlaen â'r Memorandwm Dealltwriaeth a lofnodwyd rhwng Cymru a Llydaw fis Ionawr, roedd fy rhaglen yn cynnwys ymweliadau â phrosiectau ffyrdd a thraffig, cyfleusterau chwaraeon dwr, adfywio drwy ddatblygiadau marina, a Gwyl Lorient Interceltique, lle'r roedd cynrychiolaeth dda o Gymru unwaith eto.

16. **Ymweliad gan gynrychiolwyr busnes o Sisili** - Daeth 20 o gynrychiolwyr o Ardal Siracusa, yn Sisili, i Gymru rhwng 5 a 9 Medi i weld sut mae polisïau cynaliadwy yn cael eu defnyddio i adfywio rhannau o'r economi.

17. Gwelodd y cynrychiolwyr yr arbenigedd y mae Cymru wedi'i datblygu i weddnewid hen dirweddau diwydiannol a buont yn dysgu am sut y gellir defnyddio'r arbenigedd hwn yn yr un modd yn Sisili.  Hefyd, ffurfiwyd cysylltiadau rhwng busnesau Cymru a busnesau yn Sisili a bydd cenhadaeth fasnach yn teithio o Gymru i Sisili ddechrau 2005.

18. **'Cymru mewn Ewrop Newydd: Polisi Rhanbarthol ar ôl 2006' -** Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru y gynhadledd uchod ddydd Mercher 15 Medi 2004 ar Gampws Caerllion, Prifysgol Cymru Casnewydd.  Roedd y gynhadledd yn rhan o'r gyfres 'Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd' a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i drafod materion Ewropeaidd sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

19. Rhoddodd y sesiwn undydd gyfle i gynrychiolwyr glywed am y rheoliadau drafft ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol rhwng 2007 a 2013, a'u trafod, yn ogystal ag ystyried safbwyntiau'r Aelod-Wladwriaethau am y Polisi Rhanbarthol ar ôl 2006.  Ymhlith y siaradwyr roedd Prif Weinidog Cymru a Ronnie Hall, Chef de Cabinet, Adran Polisi Rhanbarthol y Comisiwn.

20. Ar ôl cyhoeddi'r **Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant** ar 18 Chwefror, ffurfiwyd Grwp Prosiect Cronfeydd Strwythurol gyda chroestoriad o swyddogion o feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad.  Prif ffocws y grwp yw trafod dyfodol y cronfeydd strwythurol ac ystyried y goblygiadau sy'n deillio o'r cynigion yn yr adroddiad. Erbyn hyn, mae'r grwp wedi cyfarfod deirgwaith ac mae wedi trefnu i gyfarfod eto ar 5 Hydref.

21. Hefyd, ffurfiwyd gweithgor o randdeiliaid allanol i helpu i lywio gwaith y Grwp Prosiect. Pwrpas y grwp o randdeiliaid allanol yw sicrhau bod barn uwch swyddogion o'r prif gyrff perthnasol yng Nghymru yn helpu i hysbysu argymhellion y prif Grwp Prosiect. Cynhaliodd y Grwp Allanol ei gyfarfod cyntaf ar 9 Awst ac mae wedi trefnu i gyfarfod eto ar 12 Hydref.

**Gwella Trafnidiaeth**

22. Cyfarfûm â llefarydd trafnidiaeth newydd Cymdeithas Llywodreth Leol Cymru, y Cynghorydd Harry Andrews, i drafod materion trafnidiaeth lleol a gweithio mewn partneriaeth.

23. Fel rhan o'm hymweliad â Llydaw ym mis Gorffennaf, mynychais gyfarfod gyda swyddogion o adran Côtes D'Armor. Yn y cyfarfod trafodwyd y cyfleoedd oedd ar gael i Gymru a Llydaw weithio mewn partneriaeth i ddatblygu arfer gorau ar gyfer materion trafnidiaeth cyffredin a chydweithredu i ddatblygu Systemau Trafnidiaeth Deallus ar y cyd.

**NEWYDDION GWAITH**

**Swyddi newydd**

24. Ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyhoeddi nifer o brosiectau RSA ac AIG gan gynnwys:

- Cafodd **Gwasg Gomer** gymorth AIG a disgwylir iddynt greu 12 o swyddi fel rhan o'r prosiect i ddatblygu canolfan argraffu gwerth £3.3 miliwn yng Ngheredigion.

- Mae **Engineering Services**, **Pen-y-bont ar Ogwr,** wedi cael cynnig £180K o RSA i'r rheolwyr ei brynu, gan arbed 40 o swyddi crefftus ym maes peirianneg trwm. Mae'r cwmni yn gyflenwr arbenigol sy'n gweithgynhyrchu cyfarpar wedi'i ailgylchu.

- Mae **Picture Financial Group** wedi cyhoeddi mai yng Nghasnewydd fydd eu pencadlys, gan greu 250 swyddi. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan gynllun grant RSA.

- Cyhoeddodd **Maskreys** o Gaerdydd a Chasnewydd brosiect yn eu cyfleuster storio newydd yng Ngwynllwg i algylchu eu gwastraff. Cafodd y cyfleuster storio a'r cyfarpar angenrheidiol eu hariannu'n rhannol gan grant RSA.

- Mae **WF Manufacturing Ltd** yn bwriadu sefydlu ffatri gweithgynhyrchu yn Rhisga ger Casnewydd i wneud tai ffrâm pren. Bydd tua 40 o swyddi crefftus yn cael eu creu gan y prosiect hwn a gafodd gymorth grant RSA.

- Lansiodd **Europaper Products UK Ltd** eu ffatri hancesi papur yng Nghorwen ym mis Awst - bydd y ffatri yn cyflogi 24 o bobl a chafodd gymorth grant gan RSA a Chyllid Cymru.

- **Intertissue/Delicarta** - Mynychais y seremoni codi'r dywarchen gyntaf ar safle Intertissue ym Mae Baglan ar 14 Medi. Bydd y prosiect buddsoddi hwn sy'n werth £70 miliwn ac a gefnogir gan RSA, WDA ac ELWa yn un o'r melinau papur mwyaf uwch-dechnolegol yn Ewrop, a bydd yn creu 300 o swyddi maes o law.

25. Hefyd, cyhoeddwyd ffigurau Masnach a Buddsoddi y DU ar Fuddsoddiadau Tramor Uniongyrchol (FDI) yn ystod y toriad. Dengys y ffigurau bod disgwyl i brosiectau sy'n dod i Gymru o dramor greu mwy o swyddi nag yn unrhyw ranbarth arall yn y DU yn y flwyddyn 2003/04, gyda ffigur o oddeutu 4,000.

**Colli swyddi**

26. Cyhoeddodd Laura Ashley eu bod yn cael gwared â 90 o swyddi yn ei weithfeydd yn y Drenewydd a Charno ar 13 Medi. Bydd 50 yn cael eu colli yn warws a chyfleusterau dosbarthu y Grwp yn y Drenewydd a bydd 30 arall yn cael eu colli yn Texplan, Carno. Deallaf bod y cyhoeddiad yn rhan o ymgyrch i sicrhau effeithlonrwydd. Mae Laura Ashley ccc a'i is-gwmni Texplan Manufacturing Ltd yn dal i fod yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal.